

BWRDD PARTNERIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES CWM TAF

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

Mae'r adroddiad yma'n cael ei lunio i fodloni'r gofynion sy wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWETHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL



MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Siro
MERTHYR TUDFUL



Rhondda Cynon Taf



RHONDDA CYNON TAF



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf
University Health Board

CYNNWYS

Rhif y dudalen

1. Cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	4
2. Cefndir i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Adroddiad Blynyddol	5
3. Rôl, pwrpas ac aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i strwythurau cysylltiedig	6
4. Ein cyfeiriad strategol – Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf 2018-23	10
5. Cyflawni ein hamcanion a gwella canlyniadau: Meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio	11
5.1. Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia	12
5.2. Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch	14
5.3 Cynhalwyr	15
5.4 Pobl sydd ag Anableddau Dysgu	16
5.5. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd	17
6. Cyflawni ein hamcanion a gwella canlyniadau: Galluogwyr a sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau rhanbarthol	18
6.1. Cronfa Gofal Integredig	18
6.2. Cyllidebau ar y cyd	21
6.3. System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru	22
6.4. Y Gweithlu	23
6.5. Ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gan gynnwys Panel y Dinasyddion a'r Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol	24
6.6. Trefniadau Comisiynu Rhanbarthol	27
6.7. Gweithio gyda phartneriaethau eraill	29
7. Edrych tuag at 2018/19	30
7.1. Cyflwyno Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf	30
7.2. "Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol"	31

7.3.	Newidiadau Ffin	31
7.4.	Cronfa Gofal Integredig 2018/19	31
7.5.	Cartrefi gofal	32
7.6.	Cyd-gynhyrchu	32

1. Cyflwyniad gan Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2017/18

A minnau'n Gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf, rwy'n falch o gyflwyno ein hail Adroddiad Blynyddol sy'n nodi'r cynnydd rydyn ni wedi parhau i'w wneud yn ystod 2017/18.

Mae pob un sefydliad partner yng Nghwm Taf yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n ymateb i'r rheiny sy'n agored i niwed, boed nhw'n blant, yn bobl ifainc, yn oedolion neu'n deuluoedd. Rydyn ni i gyd wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac yn gynaliadwy ond rydyn ni'n cydnabod y bydd yn rhaid i ni newid yr hyn rydyn ni'n ei wneud a'r ffordd rydyn ni'n ei wneud e, er mwyn gwedddnewid ein gwasanaethau i gwrdd â'r heriau sy'n ein hwynebu. Mae hyn yn golygu gweithio'n fwy effeithiol ar draws gwasanaethau cyhoeddus, y Trydydd Sector, y sector annibynnol a gyda'n defnyddwyr gwasanaeth, ein cynhalwyr (gofalwyr) a'n cymunedau.

Rydyn ni'n hynod falch o aeddfedrwydd trefniadau partneriaeth rhanbarthol yng Nghwm Taf sy'n rhoi dull gweithio cryf ac unedig inni. O ganlyniad mae modd inni ddatblygu modelau gofal newydd a defnyddio cyfleoedd ariannu, fel y Gronfa Gofal Integredig, i ddarparu buddion go iawn i'n poblogaeth. Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn disgrifio datblygiadau diweddar, ond mae llunio ein Cynllun Ardal cyntaf (sy'n cael ei alw'n Gynllun Rhanbarthol Cwm Taf) bellach yn rhoi ffocws i'n huchelgais ac i'n gwaith partneriaeth ar draws Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf i ddarparu gwasanaethau integredig gwell ar gyfer ein dinasyddion sydd angen gofal a chymorth.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ymwneud â newid ffocws y gwasanaethau gofal a chymorth, gan sicrhau fod pobl yn ganolog i'r system newydd a'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Trwy gynnwys pobl a chymunedau yn eu gwasanaethau gofal a chymorth eu hunain, mae modd i wasanaethau cyhoeddus sicrhau bod y gwasanaethau addas yn cael eu darparu ar yr adeg iawn yn y lle iawn, gan roi grym i bobl gyflawni'r deilliannau sy'n bwysig iddyn nhw.

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r rhai sydd wedi gwasanaethu ar y Bwrdd dros y flwyddyn ddiwethaf ac i'r holl staff a gwirfoddolwyr ar draws y Partneriaeth am eu hamser, eu hymrwymiad a'u brwdfrydedd. Dim ond gyda'n gilydd y mae modd i ni wneud gwahaniaeth go iawn i'r bobl sydd angen ein cymorth a'n cefnogaeth i aros yn iach am gyfnod hirach a chyflawni ein hymrwymiad i ddarparu rhagor o ofal yn y cartref ac yn y gymuned.

Y Cynghorydd Geraint Hopkins

Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

2. Cefndir i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Adroddiad Blynyddol

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") i rym ar 6 Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u Byrddau Iechyd Lleol sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol at ddiben cyflawni gwaith cynllunio strategol rhanbarthol ym maes iechyd a gofal chymdeithasol. Trwy waith partneriaeth rhwng y ddau sefydliad, bydd y bwrdd yma hefyd yn sicrhau bod gwasanaethau effeithiol, gofal a chymorth ar waith er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn y modd gorau posibl. Yng Nghwm Taf, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (sy'n cael ei alw'n Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf) yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o Gyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, y Trydydd Sector, y Sector Annibynnol a defnyddwyr gwasanaeth a chynhalwyr.

Amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw sicrhau bod y cyrff sy'n bartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd mewn modd effeithiol er mwyn:

- ✚ Ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a gafodd ei gynnal yn unol ag adran 14 y Ddeddf.
- ✚ Rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer yr holl ardaloedd Awdurdod Lleol sydd dan ofal y Bwrdd. Mae gofyn i'r Awdurdodau Lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol eu llunio a'u cyhoeddi.
- ✚ Sicrhau bod y cyrff sy'n bartneriaid yn darparu adnoddau digonol ar gyfer trefniadau'r Bartneriaeth.
- ✚ Hybu'r broses o sefydlu cronfa arian ar y cyd lle bo modd gwneud hynny.

Mae gofyn i'r Byrddau Partneriaeth Lleol flaenoriaethu'r broses o integreiddio gwasanaethau ar gyfer:

- ✚ Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- ✚ Pobl sydd ag anableddau dysgu
- ✚ Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc
- ✚ Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
- ✚ Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch

Fel sy wedi'i nodi yn y rheoliadau statudol ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lunio Adroddiad Blynyddol erbyn 30 Mehefin i'w gyflwyno i Weinidogion Cymru. Mae'n ddogfen sydd ar gael i'r cyhoedd sy'n crynhoi gwaith y Bartneriaeth a'i rhaglenni cysylltiedig yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau rhanbarthol y Bwrdd, gan dynnu sylw at feysydd allweddol o gynnydd, cyflawniadau a chipolwg ar ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Bwriad Adroddiad Blynyddol y Bwrdd yw ategu'r adroddiadau blynyddol ar wasanaethau cymdeithasol sy'n ofynnol gan Gyngorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, ac adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Cwm Taf a'r adroddiad lles blynyddol gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Nid yw'n fwrriad i'r Adroddaid Blynyddol ailadrodd yr hyn a ddywed yr adroddiadau eraill yma.

3. Rôl, pwrpas ac aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i strwythurau cysylltiedig

Wrth sefydlu'r Bwrdd, mae partneriaid yng Nghwm Taf wedi adeiladu ar y cynnydd da sy wedi'i wneud eisoes ym maes cydweithio rhanbarthol yn ogystal â bodloni'r gofynion cenedlaethol newydd mewn perthynas ag aelodaeth a swyddogaethau'r Bwrdd.

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, sy wedi'i gefnogi'n ffurfiol gan bob sefydliad partner trwy eu prosesau llywodraethu ffurfiol, yn nodi'r trefniadau ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf. Mae elfennau allweddol wedi'u cynnwys isod:

Dyma'r egwyddorion sy'n llywio gwaith Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf:

- Byddwn ni'n hyrwyddo cyfathrebu effeithiol ym mhob rhan o'r bartneriaeth ac yn cynorthwyo pobl i wneud hynny
- Byddwn ni'n sicrhau bod y cyhoedd, yn enwedig y rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'u cynhalwyr, yn gallu dylanwadu ar waith y bartneriaeth
- Byddwn ni'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau Cwm Taf
- Byddwn ni'n annog ac yn hybu datrysiadau er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu i bobl yng Nghwm Taf
- Byddwn ni'n annog pobl i gydweithio ac integreiddio, ac yn cefnogi'r broses o wneud hynny
- Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n cydbwyso anghenion tymor byr a nodau hirdymor

Prif rolau ar gyfer Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf yw:

- Sicrhau bod y sefydliadau yn cytuno ar weledigaeth a chyfeiriad clir o ran datblygu'r gwasanaeth ac integreiddio iechyd, gofal a lles
- Sicrhau bod cynlluniau a strategaethau cyffredin yn cael eu rhoi ar waith (a'u hategu gan achosion busnes priodol) er mwyn cyflawni'r weledigaeth
- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn deilliannau a dangosyddion cyflawniad y mae'r sefydliadau wedi cytuno arny'n nhw a'u deall
- Rhoi dull gweithredu strategol ar waith o ran cyfathrebu a chyhoeddi cyfeiriad y bartneriaeth a'r cynnydd a gaiff ei wneud
- Sicrhau y caiff egwyddorion y Bwrdd eu cynnal
- Arolygu'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu gan y Bwrdd Partneriaeth mewn modd effeithlon
- Rhoi gwybod i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, yn ogystal â chyfeirio unrhyw faterion sy'n atal cynnydd i'r Bwrdd Partneriaeth er mwyn eu datrys
- Sicrhau y caiff adroddiad blynyddol ar gynnydd ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol

Mae canllawiau statudol yn nodi aelodaeth gofynnol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae modd i Fyrddau hefyd gyfethol aelodau ychwanegol. Roedd aelodaeth RPB Cwm Taf yn 2017/18 fel a ganlyn:

Y Cyngorydd Geraint Hopkins (Cadeirydd)	Aelod o'r Cabinet dros faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Rachel Rowlands (Is-gadeirydd)	Prif Weithredwr, Age Connects Morgannwg
Donna Mead (tan fis Rhagfyr 2017)	Is-gadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Maria Thomas (o fis Ionawr 2018)	Is-gadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Y Cyngorydd Rhys Lewis	Dirprwy Aelod o'r Cabinet dros faterion Ffyniant a Llesiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Y Cyngorydd David Hughes	Aelod o'r Cabinet dros faterion Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Lisa Curtis-Jones	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Gio Isingrini	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Pauline Richards	Cadeirydd Dros Dro, Interlink RhCT
Mike Slator	Cynrychiolydd Fforwm Gofal Cymru
Brian Lewis	Cadeirydd Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (Cyngor Gwirfoddol y Sir ar gyfer Merthyr Tudful)
Ruth Treharne	Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyflawniad / Dirprwy Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Claire Williams	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio a Phartneriaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Nicola Davies	Pennaeth Iechyd a Llesiant Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf / Arweinydd Rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig
Lynda Williams	Cyfarwyddwr Nyrso, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau i Gleifion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
John Palmer (tan fis Ionawr 2018)	Cyfarwyddwr Iechyd Cymunedol a Iechyd Meddwl Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Alan Lawrie (o fis Chwefror 2018)	Cyfarwyddwr Iechyd Cymunedol a Iechyd Meddwl Sylfaenol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Gwag	Cynrychiolydd Defnyddwyr y Gwasanaeth
Dot Davey	Cynrychiolydd y Cynhalwyr
Gwag	Gofal Cymdeithasol Cymru

Caiff swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hadolygu bob blwyddyn a chaiff unigolion o bob sefydliad partner statudol gyfle i gael eu penodi i'r swydd. Caiff cyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth eu cynnal bob deufis. Mae pob aelod o'r Bwrdd Partneriaeth yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw benderfyniadau

a chynlluniau strategol a gaiff eu gwneud gan y Bwrdd Partneriaeth yn cael eu cefnogi gan y cyrff sy'n bartneriaid ac yn cael eu trosglwyddo a'u hystyried gan y systemau llywodraethu perthnasol

Mae gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni ei amcanion yn cael ei gefnogi trwy ystod o fecanweithiau rhanbarthol gan gynnwys y canlynol:

Grŵp Arwain Trawsnewid Cwm Taf

Mae Grŵp Arwain Trawsnewid Cwm Taf yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Gyfarwyddwr Cynllunio a Chyflawniad / Dirprwy Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd Prifysgol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol RhCT. Mae Swyddogion Gweithredol ac Uwch Swyddogion y sefydliadau partner yn rhan o'r grŵp yma, ac mae ei brif gyfrifoldebau yn cynnwys:

- Hwyluso'r broses o drawsnewid a rheoli newid ar gyfer gwasanaethau ym mhob rhan o'r rhanbarth
- Blaenoriaethu a chwilio am adnoddau i'w cynnwys yn y Cynllun (Ardal) Rhanbarthol (gan gynnwys y Cynllun Hyfforddi a Datblygu a strategaethau comisiynu cysylltiedig)
- Hwyluso cyflwyno Cynllun Rhanbarthol yr ardal, yn enwedig lle mae gweithredoedd yn rhyngddibynnol ar draws ffrydiau gwaith
- Ystyried adroddiadau sy'n eithrio, penderfyniadau sydd ar y gweill, meysydd pryder, risg a rhwystrau i gynnydd o ran grwpiau gweithredol
- Darparu cyngor ac argymhellion i Fwrdd Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf
- Cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud â'r Ddeddf a gwaith y rhanbarth
- Gwerthuso modelau gwasanaeth, trawsnewid a gweithgarwch cysylltiedig newydd
- Cymeradwyo cynigion am gyllid i'w cyflwyno i'r Bwrdd (e.e. mentrau sy wedi'i hariannu trwy'r Gronfa Gofal Integredig a Grantiau Trawsnewid)

Is-grŵp Comisiynu ar y Cyd Cwm Taf

Mae comisiynu ar y cyd wedi'i nodi fel blaenoriaeth strategol allweddol i'r rhanbarth. Mae'r Is-grŵp Comisiynu ar y Cyd yn rhoi cyngor i'r Bwrdd a Grŵp Arwain Trawsnewid ar ystod o faterion gan gynnwys:

- Datblygu Datganiadau o Fwriad Comisiynu ar y Cyd, gan gynnwys ymgysylltu ar y mater yma
- Datblygu a monitro cynlluniau gweithredu ar gyfer Datganiadau ar y Cyd unwaith y maen nhw wedi'u cwblhau
- Gweithredu Strategaeth Cynhalwyr Cwm Taf
- Adroddiadau chwarterol ac adolygiad blynyddol o gynlluniau sy wedi'u hariannu trwy'r Gronfa Gofal Integredig

- Unrhyw flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg o weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

Mae cylch gorchwyl y grŵp yn canolbwyntio'n benodol ar wasanaethau a chymorth i bobl hŷn; plant a phobl ifainc; anabledau dysgu; a chynhalwyr yng Nghwm Taf, ac mae grwpiau neu bartneriaethau rhanbarthol sy'n darparu ar gyfer y grwpiau yma. Serch hynny, mae gwaith nifer o bartneriaethau eraill ar draws Cwm Taf hefyd yn cefnogi'r agenda strategol ehangach ar gyfer ieuchyd, gofal cymdeithasol a lles a chyflawni'r Cynllun Ardal – edrychwch ar adran 6.7 am ragor o wybodaeth.

Mae grwpiau Rhanbarthol eraill sy'n cefnogi gwaith y Bwrdd yn cynnwys Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cwm Taf, Panel y Dinasyddion a Phartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf. Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth am eu gweithgareddau yn 2017/18 yn adran 6 "Galluogwyr a sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau rhanbarthol".

4. Ein cyfeiriad strategol – Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf 2018-23

Cafodd Cynllun Ardal y rhanbarth (sy'n cael ei alw'n lleol yn Gynllun Rhanbarthol) ei gyhoeddi yn ôl yr angen ar 1 Ebrill 2018.

<http://cwmtaf.wales/how-we-work/plans-and-reports/cwm-taf-social-services-and-well-being-area-plan/>

Mae'n darparu ymateb y Bwrdd Partneriaeth i ganfyddiadau'r Asesiad Poblogaeth a gafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2017 ac yn nodi ein huchelgais wrth flaenoriaethu atal, ymyrryd yn gynnar a darparu gwasanaethau integredig yn nes at y cartref.

Dydy'r Cynllun Rhanbarthol ddim yn ailadrodd cynlluniau sefydliadau unigol fel y Bwrdd Iechyd na'r Awdurdod Lleol. Yn hytrach, mae'n nodi'r camau y bydd angen i ni eu cymryd gyda'n gilydd ar draws Rhanbarth Cwm Taf i lwyddo i fodloni gofynion y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant, yn ogystal â bodloni'r deilliannau mae defnyddwyr ein gwasanaethau a chynhalwyr am eu cyflawni. Lle bo'n briodol, mae'r Cynllun yn cyfeirio at grwpiau perthnasol eraill sydd â chyfrifoldeb i arwain a chyflwyno newid a fydd yn cefnogi gwaith y Bartneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Y Cynllun Rhanbarthol yw'n hymateb i Asesiad Poblogaeth Cwm Taf a gafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2017. Yn ogystal â'r canfyddiadau penodol ar gyfer y themâu craidd sy'n ymwneud â grwpiau penodol o bobl (fel plant a phobl ifainc, cynhalwyr, pobl hŷn), mae'r Cynllun hefyd yn mynd i'r afael â themâu trosfwaol sy wedi'u hamlygu yn yr Asesiad. Cafodd y rhain eu defnyddio fel sail ar gyfer ymgysylltu â phartneriaid a thri Phanel Cymunedol a gafodd eu cynnal ym mis Rhagfyr 2017 i ofyn am eu barn am y Cynllun. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth
- Eich cysylltu â'ch cymuned chi
- Rhoi terfyn ar broblemau cyn iddyn nhw ddechrau

- Rhoi terfyn ar broblemau cyn iddyn nhw waethygu
- Gwasanaethau di-dor
- Gwneud y gwasanaeth yn un personol a gweithio ar y cyd â chi

Roedd y Cynllun hefyd yn ystyried canfyddiadau Asesiad Lles Cwm Taf a'r gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Mae'r ddau Gynllun yn ategu ei gilydd a rydyn ni wedi nodi nifer o gamau gweithredu a gaiff eu cyflawni ar y cyd rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd yn canolbwyntio'n enwedig ar ddefnyddio asedau presennol a gweithio'n fwy effeithiol gyda chymunedau i feithrin cadernid a mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu.

Mae'r Cynllun Rhanbarthol yn gam pwysig ymlaen wrth nodi ein hagenda cyffredin dros y 5 mlynedd nesaf. Byddwn ni'n adolygu'r Camau Gweithredu yn y Cynllun yn flynyddol i weld a ydyn ni'n gwneud cynnydd ac yn ei wneud yn ddigon cyflym. Bydd angen iddo hefyd fod yn ddigon hyblyg i ystyried newidiadau pellach y mae angen i ni eu gwneud. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, ymateb i'r Adolygiad Seneddol ym maes Gofal Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a gafodd ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018, a chanlyniad ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynigion i alinio poblogaeth dalgylch Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr â phoblogaeth dalgylch Cwm Taf. Edrychwch ar Adran 7 – Edrych tuag at 2018/19.

5. Cyflawni ein hamcanion a gwella canlyniadau: Meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio

Fel sy'n ofynnol, mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar wasanaethau integredig ar gyfer nifer o grwpiau blaenoriaeth, fel sy'n cael eu trafod ymhellach yn yr adrannau isod, ac mae'n cynnwys enghreifftiau o gamau gweithredu rhanbarthol allweddol. Mae ein gweithredoedd yn seiliedig ar ddarparu gwasanaethau integredig i bobl o bob oed, gan gydnabod cyfraniad ystod o bartneriaid, nid gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn unig. Rydyn ni eisiau adeiladu ar ein partneriaethau presennol ond hefyd creu rhai newydd. Mae ein hymagwedd at integreiddio yn golygu bod rhaid bod modd i'r bobl hynny sydd angen gofal a chefnogaeth ddweud:

"Fi sy'n cynllunio fy ngofal, gyda phobl yn gweithio gyda'i gilydd i'm deall i, fy nheulu a'm cynhalwyr, gan roi rheolaeth i mi a dod â gwasanaethau at ei gilydd i gyflawni'r deilliannau sy'n bwysig i mi."

Rydyn ni wedi datblygu nifer o Ddatganiadau o Fwriad sy'n disgrifio modelau gwasanaeth sy'n cynnig continwwm o wasanaethau atal a gwasanaethau cyffredinol trwy ymyrraeth gynnar ar gyfer y rhai sydd ag anawsterau newydd i gefnogaeth arbenigol.

5.1 Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia

Mae'r Rhanbarth wedi datblygu Datganiad o Fwriad Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn gyda gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn yng Nghwm Taf:

"Cefnogi pobl hŷn i fyw bywydau annibynnol, iach a llawn".

Trwy weithredu'r Datganiad o Fwriad, mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rhanbarthol:

PH1 Byddwn ni'n meithrin cymunedau cefnogol a rhwydweithiau teuluol trwy wasanaethau cyffredinol hygyrch, mentrau iechyd a lles cyffredinol a phenodol

PH2 Byddwn ni'n cynnig gwasanaethau integredig, yn canolbwyntio ar gyflawni nodau o fewn cyfnod penodol, i helpu pobl lle does dim modd diwallu eu hanghenion trwy gefnogaeth yn y gymuned a chefnogaeth ataliol yn unig

PH3 Byddwn ni'n sicrhau bod gan bobl fynediad at asesiad holistaidd sy'n ystyried anghenion a dymuniadau pobl, gan hyrwyddo dewis a rheolaeth dros wella ansawdd bywyd

PH4 Byddwn ni'n sicrhau bod pobl hŷn sydd angen gwasanaeth arbenigol neu amnewidiol yn gallu defnyddio'r gwasanaethau hynny ar yr adeg iawn yn y man cywir a'u bod yn cynnig gwell ansawdd bywyd

Mae'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn cynnwys:

5.1.1. Datganiad Sefyllfa'r Farchnad

Gan adeiladu ar yr ymagwedd tuag at lety â gofal a chefnogaeth i bobl hŷn sy'n cael ei hamlinellu yn y Datganiad ar y Cyd, cafodd Datganiad Sefyllfa'r Farchnad rhanbarthol ei ddatblygu, a chafodd ei gymeradwyo ym mis Tachwedd 2017. Mae'n gosod sail ar gyfer deialog yn y dyfodol a phartneriaeth gryfach gan weithio rhwng comisiynwyr a darparwyr, yn benodol o ran

- Rhannu gwybodaeth a dadansoddi anghenion y boblogaeth yn y dyfodol
- Adolygu'r "farchnad" bresennol o wasanaethau
- Disgrifio ein dull tuag at gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol
- Nodi ffurf bosibl y farchnad yn y dyfodol i alluogi darparwyr i osod eu safle a diwallu gofynion/anghenion yn y dyfodol
- Disgrifio sut mae modd i gomisiynwyr ymgysylltu a chefnogi darparwyr gwasanaeth yn fwy effeithiol er mwyn cyflawni marchnad iach a chynaliadwy

Rydyn ni hefyd wedi datblygu contract cartrefi gofal rhanbarthol a manyleb gwasanaeth. Mae'r deilliannau sy'n ofynnol gan y contract diwygiedig yn canolbwyntio ar ofal personol, gofal urddasol, cadw'n iach a gofal diogel. Mae hyn yn newid pwysig o'r dull blaenorol a oedd yn canolbwyntio ar ofynion yn seiliedig ar dasg.

5.1.2. Cadw'n Iach Gartref

Mae cynllun Cronfa Gofal Integredig mwyaf y Rhanbarth, Cadw'n Iach Gartref, wedi derbyn croeso gwresog. Mae'r garfan amlasiantaeth sy wedi'i lleoli mewn ysbytai yn darparu gwasanaeth asesu ac ymateb integredig, wedi'i lleoli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl, gyda chymorth gwasanaethau cymunedol.

- Mae asesiadau y tu allan i oriau craidd yn cael eu cynnal yn y safleoedd ysbytai aciwt
- Mae'r pecyn gofal / cymorth wedi'i gytuno a'i sefydlu o fewn y cyfnod ymateb 4 awr sy wedi'i gytuno – 7 diwrnod yr wythnos, gan gynnwys gwylliau banc
- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio un cofnod
- Rhyddhau i asesu'r model sydd wedi'i ddefnyddio
- Cynnal adolygiad cymunedol o fewn y 14 diwrnod cyntaf
- Gweithredu dull sy'n galluogi cynyddu lefelau annibyniaeth a lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth gwasanaeth hirdymor

Cafodd adolygiadau mewnol eu cynnal ar ôl 6 mis a 12 mis ac roedd gwelliant sylweddol o ran derbyniadau yn yr ysbyty a hyd arhosiad. Mae'r ddau Ysbyty hefyd wedi gweld gwelliannau o ran dwysáu achosion, lleihad yn nifer yr achosion o dorri rheolau Damweiniau ac Achosion Brys a nifer llai o lawdriniaethau wedi'u canslo. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a chynhalwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'r gwasanaeth wedi bod ar y rhestr fer ar gyfer nifer o wobrau.

5.1.3 Ward Rhithiol

Mae'r prosiect amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth sy wedi cael ei beilota mewn Meddygfa yng Nghwm Cynon yn cefnogi cleifion sy'n dioddef o wendid corfforol a sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Mae'n cynnwys gofal sylfaenol, y Trydydd sector, gofal cymdeithasol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ac yn ymateb yn rhagweithiol er mwyn darparu cefnogaeth i'r 3% uchaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn y Feddygfa. Y nodau yw

- Gwella gofal cleifion a'u mynediad i'r gwasanaeth
- Darparu gofal iechyd rhagweithiol trwy ddefnyddio gwybodaeth wrth law i dargedu grwpiau sy'n agored i niwed
- Gwella cyfathrebu rhwng ystod o bartneriaid ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â'r trydydd sector
- Gwella cofnodion cleifion fel bod modd eu defnyddio'n rhagweithiol
- Defnyddio carfan amlddisgyblaeth i lunio cynlluniau gofal cyfannol sy wedi'u datblygu yn seiliedig ar anghenion cleifion

Mae'r model presennol yn llwyddo i weithio gydag oddeutu 240 o gleifion y flwyddyn ac mae wedi cael effaith ddramatig gan leihau cysylltiadau gyda Meddygon Teulu y tu allan i oriau o 91%, lleihau derbyniadau gofal heb eu trefnu o 76.3%. Mae hefyd wedi gweld gostyngiad o 57% yn nifer y cysylltiadau â meddygon teulu yn ystod oriau dydd. Bellach mae'r model wedi ei ymestyn i 3 meddygfa sy'n gwasanaethu poblogaeth o 30,497.

Mae'r model yma wedi gweld llwyddiant sylweddol ac mae'n rhan o gynllun ein model trawsnewidiol ar gyfer y dyfodol. Bydd hwnnw hefyd yn cynnwys ein partneriaid yn yr awdurdod lleol a'r trydydd sector yn fwy gweithredol, gan drawsnewid y ffordd rydyn ni'n gweithio i wella deilliannau cleifion.

5.2 Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd neu salwch

Yn ystod 2017/18, cafodd Datganiad drafft o Fwriad Rhanbarth Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd ei lunio ar y cyd gan bartneriaid yng Nghwm Taf mewn ymateb i ddadansoddiad poblogaeth, ac i adeiladu ar ymgynghoriad â'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn 2016. Y bwriad yw bod y datganiad yn parhau i fod yn berthnasol tan 2022 a chaiff ei gynnig fel y weledigaeth, yr egwyddorion a'r amcanion mae'r partneriaid yn eu rhannu wrth gyfarwyddo eu holl waith.

Mae'r Datganiad o Fwriad yn canolbwyntio ar y weledigaeth isod y mae'r partneriaid yn ei rhannu, sef:

- Bydd plant, pobl ifainc a theuluoedd yng Nghwm Taf yn byw bywydau diogel, iach a llawn ac yn cyflawni eu potensial llawn.
- Bydd teuluoedd a chymunedau yn fwy cadarn ac yn annibynnol.
- Bydd ein ffocws ar gymunedau yn rhoi'r amgylchedd gorau posibl i blant, pobl ifainc a theuluoedd ffynnu.
- Bydd cydbwysedd yr adnoddau yn symud o ddiogelu, gofal amnewidiol a chymhleth i gymorth cynnar wedi'i dargedu.

Cafodd cynllun Ymgysylltu ei ddatblygu a'i weithredu ar ddechrau 2018 i sicrhau bod y Datganiad drafft yn cyfateb i'r anghenion a'r disgwyliadau mae'r partneriaid a'r defnyddwyr yn eu rhannu. Roedd yr ymatebion yn gyffredinol yn gadarnhaol ond hefyd yn adlewyrchu'r angen am wybodaeth fanylach i ddangos sut mae'r Datganiad yn cael ei weithredu a pha wahaniaeth y bydd yn ei wneud. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydnabod y bydd ymgysylltu parhaus a dull cynhyrchiol yn hanfodol yn y gwaith parhaus o gyflawni'r Datganiad.

Rydyn ni'n disgwyl i'r Datganiad terfynol gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan bartneriaid ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r Cynllun Rhanbarthol yn cynnwys y blaenoriaethau isod ond mae cyfres o gerrig milltir a chyflawniadau manwl ar gyfer partneriaid o dan bob amcan yn y Datganiad yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

PPI1 Bydd gyda ni'r gwasanaethau cyffredinol addas ar yr adeg addas i hyrwyddo lles, cyflawniad ac annibyniaeth

PPI2 Byddwn ni'n canolbwyntio ar help cynnar ar gyfer unigolion ag anawsterau sy'n dod i'r amlwg

PPI3 Byddwn ni'n targedu cefnogaeth ddwys i'r rhai sy'n cael trafferthion gwirioneddol

5.3. Cynhalwyr

Mae gan Strategaeth Cynhalwyr y Bartneriaeth 2016-19 y weledigaeth ganlynol:

Caiff Cynhalwyr o bob oed yng Nghwm Taf eu gwerthfawrogi a'u cydnabod yn elfen sylfaenol mewn teuluoedd a chymunedau cefnogol a chydnerth. Fydd dim rhaid iddyn nhw roi gofal ar eu pennau eu hunain a bydd modd iddyn nhw gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i helpu i ddiwallu eu hanghenion. Bydd hynny'n eu galluogi i fyw bywydau iach a llawn ac i gydbwysu eu rôl ofalu â'r rhannau eraill o'u bywydau.

Mae'r Cynllun Rhanbarthol yn cynnwys y camau canlynol:

C1 Adnabod cynhalwyr o bob oedran a chydabod eu cyfraniadau

C2 Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n gyfoes, yn berthnasol ac yn amserol ar gyfer cynhalwyr o bob oed

C3 Darparu cymorth, gwasanaethau a hyfforddiant i ddiwallu anghenion cynhalwyr o bob oed

C4 Rhoi llais i gynhalwyr o bob oed, gyda rhagor o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau

C5 Gweithio gyda'n gilydd i fanteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau er budd cynhalwyr o bob oed

Ym mis Medi 2017, comisiynodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru i weithio gyda phartneriaid i adolygu ein model gwasanaeth presennol ar gyfer cynhalwyr ac ystyried sut y byddai modd i ni ddarparu gwasanaethau integredig mwy effeithiol ar draws y rhanbarth. Mae'r adroddiad cryno'r gwaith hwn a gafodd ei lunio ym mis Ionawr 2018 yn cynnwys glasbrint o ffurf bosib "cynnig" cynhwysfawr i gynhalwyr Cwm Taf ar draws pum thema

- Mynediad, gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Gwasanaethau cymorth
- Gwasanaethau cymorth cyflogaeth, addysg a hyfforddiant
- Seibiant a gwyliau

□ Gwireddu'r weledigaeth

Byddwn ni'n edrych ar y ffordd orau o weithredu argymhellion yr adolygiad yn ystod 2018/19.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr manwl ar wahân. Cafodd Adroddiad Blynyddol Cynhalwyr Cwm Taf ei lunio ar gyfer 2017/18 a bydd yn cael ei gymeradwyo gan bartneriaid ym mis Gorffennaf 2018.

5.4. Pobl sydd ag Anableddau Dysgu

Cafodd ystod o weithgareddau a cynlluniau ymgysylltu eu cynnal i wneud defnyddwyr gwasanaeth, cynhalwyr, partneriaid cyhoeddus a phartneriaid eraill yn effro i'n Datganiad ar y Cyd o Fwriad Strategol ar gyfer Plant, Pobl Ifainc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu (sy'n cynnwys awtistiaeth ac anghenion cymhleth) a'u teuluoedd. Bwriad yr ymgysylltiad a'r gweithgareddau hefyd oedd cynnwys y grwpiau yma yn y broses o lunio'r datganiad. Cymeradwyodd y Bartneriaeth fersiwn derfynol y datganiad ym mis Tachwedd 2017.

Mae'r Datganiad o Fwriad yn disgrifio ymrwymiad mae'r partneriaeth yn ei rannu i gyflwyno model newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, gan ganolbwyntio ar y negeseuon allweddol canlynol:

- Gwneud y defnydd mwyaf o wasanaethau cyffredinol
- Cynyddu ymyrraeth gynnar, gwaith atal, gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Meithrin cymorth cymunedol, a datblygu annibyniaeth pobl
- Cynnal pobl yn eu cartrefi eu hunain
- Galluogi pobl i fyw bywydau llawn a chyflawni eu potensial
- Cadw pobl yn ddiogel
- Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau

I oruchwylio'r broses o weithredu'r Datganiad o Fwriad, cafodd Grŵp Llywio ar y Cyd ei sefydlu a chynllun gweithredu ei ddatblygu. Mae nifer o grwpiau gwaith wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r themâu canlynol:

- Atal unigrwydd ac ynysu trwy gynyddu cynhwysiant cymunedol
- Lleihau Stigma
- Tai
- Addysg Bellach
- Cyflogaeth, hyfforddiant, ac addysg gydol oes
- Cyfathrebu

5.5. Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd

Nod carfan Gwasanaeth Cymorth Integredig i Deuluoedd Cwm Taf yw datblygu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar deuluoedd er mwyn galluogi rhieni i newid eu hymddygiad yn ôl yr angen er mwyn cynnig cyfleoedd gwell i'r plant.

Mae amcanion Carfan Cymorth Integredig i Deuluoedd Cwm Taf yn cynnwys:

- Lleihau'r achosion o niwed i blant sy'n codi pan fydd eu rhieni'n cam-drin cyffuriau ac alcohol, pan fydd eu rhieni'n cael problemau iechyd meddwl neu os oes gan eu rhieni anabledau dysgu.
- Gwella'r deilliannau o ran llesiant i blant sydd â rhieni sy'n cam-drin cyffuriau ac alcohol, rhieni sydd â phroblemau iechyd meddwl neu rieni sydd ag anabledau dysgu.
- Lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.
- Lleihau nifer y plant sy'n wynebu ymyriad o ran gwaith cymdeithasol statudol.
- Atgyfnerthu'r broses o hyfforddi a datblygu'r gweithlu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Cafodd Carfan Integredig Cymorth i Deuluoedd Cwm Taf ei sefydlu o dan gytundeb cyfreithiol gyda chronfa ar y cyd o 1 Ebrill 2016. Mae Bwrdd Rheoli Gweithredol yn goruchwylio cyflawniad y garfan drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â hynny, caiff Adroddiad Blynyddol ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth a Llywodraeth Cymru bob blwyddyn.

Mae Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gyfer 2017/18 yn cael ei gwblhau. Yn 2017-18, parhaodd y cynnydd yn y galw am y gwasanaeth gydag atgyfeiriadau'n cynyddu o Rondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Cwblhaodd y Gwasanaeth ymyriadau dwys a oedd yn creu cynlluniau teulu gyda 56 o deuluoedd a bu'n cynnal 99 o gyfarfodydd adolygu. Cwblhaodd y garfan Ymyriadau Byr gyda theuluoedd 46 o blant.

Roedd teuluoedd a gwblhaodd ymyriadau llawn gyda'r Gwasanaeth wedi cyflawni 84% o'u nodau, neu ragori arnyn nhw.

Roedd achosion 53% o deuluoedd a gwblhaodd Ymyriadau Dwys wedi gallu dod â'u hymgysylltiad gyda'r Gwasanaethau i Blant i ben 12 mis ar ôl yr ymyriad. Lle'r oedd plant yn cael eu cyfeirio fel achosion Gofal a Chymorth neu Amddiffyn Plant, roedd 74% o blant wedi gallu dod â'u hymgysylltiad gyda'r Gwasanaethau i Blant i ben 12 mis ar ôl yr ymyriad.

6. Cyflawni ein hamcanion a gwella canlyniadau: Galluogwyr a sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau rhanbarthol

6.1. Cronfa Gofal Integredig 2017/18

Mae manylion cynlluniau buddsoddi refeniw a chyfalaf y Rhanbarth ar gyfer 2017/18 i'w gweld yng Nghynllun Buddsoddi Cwm Taf ar gyfer 2017/18 a oedd yn seiliedig ar Gytundeb Ysgrifenedig ffurfiol rhwng y partneriaid. Derbyniodd y Rhanbarth refeniw o £5.015 miliwn a chyfalaf o £1.646 miliwn. Mae'r Bartneriaeth yn defnyddio'r Gronfa Gofal Integredig, yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, i fodloni'n hamcanion ac i ddatblygu modelau cyflwyno gwasanaeth arloesol ond cynaliadwy sy'n cefnogi newid diwylliannol.

Amcanion ein cynlluniau Cronfa Gofal Integredig yw

- Gwella cydlynu gofal rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a thai;
- Hyrwyddo / gwneud y gorau o gyfleoedd byw'n annibynnol;
- Osgoi mynediad diangen neu oedi cyn rhyddhau;
- Cefnogi adferiad trwy gynyddu'r ddarpariaeth ailalluogi;
- Sefydlu dulliau mwy rhagweithiol;
- Hwyluso integreiddio; a
- Gwella canlyniadau.

Mae pob cynllun Cronfa Gofal Integredig yn adrodd yn chwarterol i'r Grŵp Arwain Trawsnewid a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan ddefnyddio templed Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n nodi faint sydd wedi'i wneud, pa mor dda y mae wedi'i wneud a sut mae pobl wedi elwa o'r gwasanaeth neu ba wahaniaeth mae wedi'i wneud. Mae hefyd adolygiad blynyddol o'r holl gynlluniau i lywio penderfyniadau buddsoddi ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Mae'r Rhanbarth hefyd yn adrodd yn chwarterol i Lywodraeth Cymru sydd wedi cadarnhau ein bod wedi darparu lefel dda o sicrwydd bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi rheoli cyflwyno'r Gronfa Gofal Integredig yn effeithiol ar draws rhanbarth Cwm Taf. Mae canfod tystiolaeth am effaith cynlluniau yn parhau i fod yn heriol ac rydyn ni'n bwriadu ymgymryd â rhagor o waith yn 2018/19 i adolygu'n cynlluniau Cronfa Gofal Integredig fel rhan o ddull llwybr a ddylai helpu i ddarparu gwell wybodaeth am ganlyniadau.

Mae'r cynlluniau'n cynnwys:

6.1.1. Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref (edrychwch hefyd ar adran 5.1)

Cafodd hyn ei gydnabod ym mis Ebrill 2017 yn gynllun trawsnewidiol sydd wedi gwella cyflawniad a chydweithio, darparu ymatebion cyflym a hyblyg i atal mynediad i'r ysbyty a chyflymu'r broses o ryddhau, gan helpu i gadw pobl gartref ac annibynnol lle bynnag y bo modd.

6.1.2. Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Daeth y gwasanaeth rhanbarthol newydd yma yn weithredol yn chwarter olaf 2017/18, gan dderbyn 40 o atgyfeiriadau hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018. Rydyn ni'n disgwyl i'r ffigwr yma gynyddu yn 2018/19 wrth i'r gwasanaeth gael ei ymgorffori'n llawn ac wrth i bobl ddod yn effro i'r hyn mae'n ei gynnig. Mae'r gwasanaeth

- wedi'i integreiddio ar draws yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ar ôl iddi ddod i'r amlwg bod y mwyafrif o faterion yn deillio o'r ffaith bod pobl yn cwmpo rhwng bylchau mewn gwasanaethau.
- yn gweithio ar draws ystod o wahanol grwpiau oedran i osgoi problemau trosglwyddo.
- yn canolbwyntio ar bobl ag anghenion ysgafn i gymedrol gan fod y gwasanaethau sy'n bodoli eisoes yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion arbenigol a chymhleth.
- yn darparu gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant e.e. mewn perthynas â materion emosiynol, pryder ac ymddygiadol. Mae'n anelu at leihau unigrwydd cymdeithasol, materion penodol ASD a helpu i gefnogi datblygu sgiliau bywyd, cefnogi mynediad at gyfleoedd cymdeithasol, hamdden a chyflogaeth.
- yn datblygu dealltwriaeth o fewn gwasanaethau cyffredinol a chymunedol.

Mae effaith y gwasanaeth yn cael ei thrafod mewn manylder mewn adroddiadau monitro chwarterol i Lywodraeth Cymru sy'n gofyn am wybodaeth am safonau gwasanaeth cenedlaethol, data gweithgaredd a data deilliannau mewn perthynas ag ansawdd bywyd, pryder ac iselder.

6.1.3. Cynlluniau trydydd sector: Cydlynwyr Cymunedol a chynllun Grant Galluedd Cymunedol (CCGS)

Mae yna 5 cydlynnydd cymunedol yn gweithio ar draws Cwm Taf gyda phobl hŷn, grwpiau a chymunedau i leihau unigrwydd ac ynysu a hyrwyddo annibyniaeth. Maen nhw'n darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth, ac yn cyfeirio at weithgareddau a gwasanaethau mewn cymunedau lleol. Mae grwpiau a mentrau newydd yn cael eu nodi trwy ymchwil gymunedol, ac yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo. Yn 2017/18 cafodd 1349 o atgyfeiriadau eu derbyn a chafodd 7191 o gyfeiriadau a / neu atgyfeiriadau eu gwneud i'r trydydd sector a gwasanaethau statudol.

Cafodd cynllun Grant Gallu Cymunedol Cwm Taf ei sefydlu i alluogi prosiectau trydydd sector i wneud cais am gyllid i ddarparu ystod eang o wasanaethau ataliol sy'n gwella iechyd a lles. Yn aml mae'n gyfle i roi dulliau gweithredu newydd ar waith ac yn ymateb

i fylchau sy wedi'u nodi gan waith y Cydlynwyr Cymunedol. Yn aml, mae prosiectau'n llwyddo i gael arian ychwanegol o ffynonellau eraill – roedd y cynlluniau a gafodd eu cymeradwyo yn 2017/18 wedi denu dros £50,000 o arian cyfatebol.

Mae'r holl gynlluniau sy wedi'u hariannu trwy CGGC yn defnyddio offer lles sy wedi'u datblygu gan CBS Merthyr Tudful i fesur effaith eu gwasanaeth a'r deilliannau maen nhw'n eu cyflawni. Mae cyfranogwyr yn cael eu holi ar ddechrau a diwedd ymyriadau / prosiectau i helpu i benderfynu a yw eu lles wedi gwella o ran yr agweddau isod:

Perthynas Dda Wedi'i mesur gan y datganiad

- Rydw i wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill

Ystyr a Phwrpas Wedi'u mesur gan y datganiadau (caiff y sgôr ei gyfrifo o gyfartaledd y tri)

- Rydw i wedi bod yn teimlo'n ddefnyddiol
- Rydw i wedi bod yn delio â phroblemau'n dda
- Rydw i wedi gallu gwneud penderfyniadau am bethau

Teimlad da Wedi'i fesur gan y datganiadau (caiff y sgôr ei gyfrifo o gyfartaledd y tri)

- Rydw i wedi bod yn teimlo'n optimistaidd am bethau
- Rydw i wedi bod yn teimlo fy mod wedi ymlacio
- Rydw i wedi bod yn meddwl yn glir

6.1.4. Datblygu Canolfan Iechyd a Lles i bobl â Dementia yn Nhreorci

Yn 2017/18 cyfrannodd Cyfalaf o Gronfa Gofal Integredig at gostau adnewyddu Ysbyty George Thomas yn Nhreorci a'i datblygu'n Ganolfan Iechyd a Lles ar gyfer pobl â phroblemau gwybyddol a chof. Nod y Ganolfan (sydd werth £1.5miliwn) yw trawsnewid gofal a chymorth i bobl sy'n byw gyda dementia a hyrwyddo symud i ffwrdd o ofal yn yr ysbyty. Bydd ystod o wasanaethau ar gael gan gynnwys gofal oriau dydd, asesiadau, clinigau, nyrsio cymunedol, therapïau a charfanau cartrefi gofal. Yn ogystal â hyn bydd gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r trydydd sector yn cael eu darparu o'r Ganolfan, sydd wedi'i dylunio i adlewyrchu hanes cryf yr ardal leol a hyrwyddo ymdeimlad o 'gymuned'.

Mae'n un o'r cerrig milltir allweddol ym mhrosiect Valley LIFE Cwm Taf, sydd wedi gweld amrywiaeth o sectorau yn dod at ei gilydd i ailgynllunio gofal i bobl â dementia trwy eu helpu i fyw'n dda yn eu cartrefi eu hunain neu'n agosach atyn nhw.

6.1.5. Cyfleuster Gofal Ychwanegol i Bobl Hŷn yn Aberaman.

Mae'r cynllun gofal ychwanegol yma yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Linc Cymru i ddarparu llety arbenigol a chyfleusterau cysylltiedig i bobl hŷn a chynnig dewis newydd i drigolion pan fyddan nhw'n ystyried eu gofynion tai presennol ac yn y dyfodol.

Wedi'i leoli ar hen safle Cartref Gofal Preswyl Maesyffynnon yn Aberaman, mae'r cynllun wedi'i gynllunio ar gyfer anghenion unigolion fel y maen nhw nawr ac ar gyfer y dyfodol, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol, ac i sicrhau bod modd iddyn nhw gael gafael ar becynnau cymorth wedi'u teilwra i'r unigolyn os oes angen.

Bydd gan y cynllun 40 o fflatiau un a dwy ystafell wely, hunangynhwysol, a byddan nhw'n cynnwys ystod o gyfleusterau gan gynnwys lolfa a bwyty cymunedol; man golchi dillad; ystafell ymolchi â chymorth; storfa bygi a lolfa gweithgareddau.

Mae i fod i agor ym mis Rhagfyr 2018.

6.1.6. Trefniant cronfa ar y cyd ar gyfer pecynnau gofal i bobl ag Anableddau Dysgu.

Mae trefniant cronfa ar y cyd wedi'i sefydlu ar gyfer pecynnau gofal ar y cyd i bobl ag Anableddau Dysgu. Ar hyn o bryd mae 14 pecyn ar y cyd (h.y. lle mae anghenion unigolyn wedi cael eu hasesu yn gyd-gyfrifoldeb y Bwrdd Iechyd Prifysgol ac un o'r Awdurdodau Lleol) yn cael eu cynnwys yn y Gronfa er mwyn profi'r dull a'r manteision. Mae'r rhain yn cynnwys prosesau rheoli achos a phrosesau adolygu ar y cyd yn fwy rhagweithiol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gofal sydd ei angen arnyn nhw yn y lle iawn, gyda'r effaith fwriadol o weithredu trefniadau symud ymlaen sy'n gwella canlyniadau lle bo'n briodol.

Cafodd 8 adolygiad ar y cyd eu cynnal yn 2017/18 a 6 gan asiantaethau ar wahân.

Doedd dim lleoliadau amhriodol ond roedd un defnyddiwr gwasanaeth wedi symud yn ôl i Ferthyr Tudful yn llwyddiannus wedi lleoliad y tu allan i'r sir sydd wedi gwella ei annibyniaeth a'i les.

6.2. Cyllidebau ar y Cyd

Yn rhanbarth Cwm Taf, mae cyllidebau ar y cyd ar waith ar gyfer gwasanaethau troseddau ieuencid, gwasanaethau offer integredig, carfanau integredig cymorth i deuluoedd, a phecynnau gofal anabledd dysgu. Mae'r cronfeydd hyn yn darparu galluogydd i gynyddu gwerth a gwella deilliannau trwy wasanaethau integredig a ddor ar gyfer ystod o grwpiau o gleifion a chleientiaid.

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ranbarthau sefydlu a rheoli cyllideb ar y cyd ar gyfer llety cartref gofal o 1 Ebrill 2018. Yn ystod 2017/18, cafodd gwaith paratoi ei gynnal i gefnogi'r Gronfa ar y cyd gan gynnwys

- Datblygu Datganiad Sefyllfa Farchnad ranbarthol
- Datblygu cytundeb cartrefi gofal rhanbarthol a manyleb gwasanaeth
- Dull integredig o gytuno ar ffioedd gyda darparwyr

Sefydlu Cronfa ar y cyd gyffredinol ar gyfer gofal preswyl a nyrsio sy'n gweithredu yn ôl Cytundeb Cyfreithiol rhwng partneriaid, sy'n cael ei gynnal gan CBS RhCT. Yn ei

hanfod mae'n cwmpasu holl leoliadau preswyl a nyrsio annibynnol i bobl hŷn mewn sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth.

6.3. System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru

Yn rhan o ymagwedd gydweithredol ar draws Cwm Taf, rydyn ni'n gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Mae hon yn system TGCh cenedlaethol newydd bwysig a fydd yn galluogi gwasanaethau cymdeithasol (oedolion a phlant) ac ystod o wasanaethau iechyd cymunedol (gan gynnwys iechyd meddwl, therapi a nyrsio) i rannu gwybodaeth berthnasol ar draws disgyblaethau, sefydliadau a ffiniau daearyddol.

Drwy ddefnyddio'r un system, mae modd i staff iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd i gynllunio, cydlynu a chyflwyno gwasanaethau a chefnogaeth i unigolion, teuluoedd a chymunedau, gyda mynediad at ddata allweddol i gefnogi triniaeth a gofal gwell.

Mae gweithredu'r System yn flaenoriaeth yn y Cynllun Rhanbarthol. Dechreuodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddefnyddio'r system ym mis Gorffennaf 2017 ac ers hynny wedi bod cyflawni yn erbyn ei Gynllun Datblygu a Gweithredol mewn perthynas â'r system, sy'n cynnwys gwelliannau parhaus i'r system, prosesau, sicrhau ansawdd a hyfforddiant. Mae adborth hefyd yn cael ei gasglu i sicrhau bod systemau yn parhau'n addas i bwrpas. Mae dogfen am yr hyn sy wedi'i ei ddysgu oddi wrth yr adborth wedi'i pharatoi ar gyfer ei rhannu ar draws y Rhanbarth, a gyda'r rhwydwaith ehangach ar draws Cymru gyfan.

Dechreuodd CBS RhCT ddefnyddio'r System ym mis Mai 2018, ac mae'r dyddiad y bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol yn dechrau ei defnyddio i'w gadarnhau.

Yn ystod 2017/18, cafodd adolygiad annibynnol ei gomisiynu gan y Bartneriaeth i wirio ein bod ni'n barod fel sefydliad ac i ragweld peryglon, yn ogystal ag ystyried cyfleoedd i alinio a gwella prosesau busnes ar draws y rhanbarth.

Cafodd adroddiad manwl ei lunio a chafodd gweithdy ei gynnal ym mis Tachwedd 2017. Daeth cymysgedd o ymarferwyr a rheolwyr i'r gweithdy i ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion. Rhoddodd y rhain sylw i

- Arweinyddiaeth a Gweledigaeth
- Llywodraethu a strwythurau
- Gwireddu buddion
- Ymgysylltu a chyfathrebu â phartneriaid
- Cynllunio gweithredu

Mae'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu ar y Cyd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar gyfer Cwm Taf a threfniadau llywodraethu mwy ffurfiol wedi cryfhau cyd-berchenogaeth a dealltwriaeth o'r weledigaeth, yr amcanion a'r manteision. Mae grŵp Rhanbarthol yn adrodd i'r Grŵp Arwain Trawsnewid ac mae

strwythurau carfan prosiect lleol gan yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol fel ei gilydd.

Bydd arweinydd ar y cyd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn cael ei benodi ar ran y tri sefydliad sy'n cymryd rhan gan ddefnyddio arian y Gronfa Gofal Integredig 2018/19 i gryfhau'r perchenogaeth a dealltwriaeth ar y cyd ymhellach a hybu manteision cydweithredol y System ar draws y Rhanbarth.

6.4 Y Gweithlu – Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf

Cafodd Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf ei sefydlu ym mis Ebrill 2016. Ei diben yw gwella ansawdd a dull rheoli'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cymdeithasol. Caiff hyn ei wneud drwy roi dull gweithredu sydd wedi'i gynllunio ar waith o ran dysgu a datblygu ac ymdrechu i gynyddu nifer y bobl sy'n derbyn hyfforddiant yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'n ceisio:

- sicrhau bod staff ym mhob sefydliad partner sy'n cyflawni dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i weithio o dan y fframwaith cyfreithiol newydd a sicrhau bod y newidiadau diwylliannol sydd eu hangen yn cael eu rhoi ar waith.
- sicrhau bod yr holl brosesau dysgu a datblygu craidd ar gyfer staff gofal cymdeithasol yn cael eu hailstrwythuro er mwyn adlewyrchu'r fframwaith cyfreithiol newydd, gan gynnwys hyfforddiant cychwynol a hyfforddiant o ran cymwysterau.
- cefnogi hyfforddiant ym maes Gofal Cymdeithasol
- helpu gweithwyr gofal cymdeithasol y rheng flaen i ddatblygu sgiliau
- cefnogi'r seilwaith o ran dysgu a datblygu

Yn ystod 2017/18, gan gydnabod yr her a'r risgiau ar y cyd i Gwm Taf wrth recriwtio a chadw gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol o safon uchel gyda'r gwerthoedd priodol, cafodd tasglu amlasiantaeth ei sefydlu. Roedd y tasglu yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Prifysgol, Colegau Addysg Bellach, Prifysgolion, Darparwyr, Undebau Llafur, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Myfyrwyr, Llywodraeth Cymru, Cynhalwyr, Rheoleiddwyr ac Arolygwyr. Diben y tasglu oedd datblygu cynllun gweithredu strategol a fyddai'n helpu i godi proffil cadarnhaol gofal cymdeithasol fel gyrfa a lleihau lefel uchel o drosiant yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

Cafodd cwmni Practice Solutions ei gomisiynu i gynnal adolygiad desg o'r dogfennau a'r wybodaeth, ynghyd ag arolwg sefydliadol ac ystod o gyfweiliadau gydag unigolion allweddol. Cafodd Cynhadledd Cynllunio Gweithredu Cyflym ei gynnal ym mis Ionawr 2018 i nodi ac ymchwilio'r materion a'r atebion, a daeth 96 o bobl.

Mae sicrhau gweithlu cynaliadwy o ansawdd da ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth yn y Cynllun Rhanbarthol. Mae "Strategaeth a Chynllun Gweithredu Gyrfaoedd, Recriwtio a Chadw Cwm Taf 2018-21" yn seiliedig ar egwyddor "Un sector; un gweithlu; un dull" ac yn nodi'r blaenoriaethau canlynol, rhai ar gyfer gweithredu lleol a rhai sydd angen sylw cenedlaethol.

- Gwerth cymdeithasol gwaith
- Trefnu comisiynu a contractio
- Traffertion rhagweld y galw
- Denu'r bobl iawn â'r gwerthoedd priodol
- Arweinyddiaeth, Diwylliant a gwerthfawrogi'r gweithlu
- Amodau gwaith a hyblygrwydd
- Cymwysterau a hyfforddi
- Cyflog a buddion
- Dilyniant gyrfaoel a datblygiad proffesiynol parhaus
- Systemau gweithredu

Byddwn ni'n gwybod a ydyn ni wedi bod yn llwyddiannus trwy leihau trosiant staff a lleihau nifer y swyddi gwag o 5% neu ragor dros y blynyddoedd 2018/19 i 2021/22 yn ogystal â lefel uwch o foddhad staff.

6.5 Ymgysylltu a chyd-gynhyrchu

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi ymrwymo i ddatblygu ymagwedd tuag at ymgysylltu a chyfranogi sy'n gyd-gynhyrchiol ac yn seiliedig ar asedau, ac mae hwn yn gam gweithredu yn ein Cynllun Rhanbarthol. Yn 2017/18, roedd ffocws ar sgysiau parhaus am gynlluniau a phrosiectau grŵp cleientiaid penodol. Er enghraifft,

- Ymgysylltu ar y drafft o'r Datganiad Bwriad Strategol ar gyfer Plant, Pobl Ifainc ac Oedolion ag Anableddau Dysgu – mae modd dod o hyd i'r adroddiad o'r ymgysylltu yma: [Ymgysylltu ar Ddatganiad o Fwriad Anabledd Dysgu](#)
- 3 Phanel Cymunedol o ddinasyddion a phartneriaid eraill yn ymgysylltu â datblygu Cynllun Ardal y Rhanbarth. Cafodd deilliannau'r sesiynau yma eu cofnodi mewn adroddiad y mae modd ei weld yma – [Ymgysylltu ar Gynllun Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf](#)
- Ymgysylltu ar y drafft o'r Strategaeth Rhanbarthol ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd
- Ymgysylltu â Chynhalwyr fel rhan o adolygiad yn archwilio opsiynau ar gyfer datblygu model gwasanaeth integredig rhanbarthol ar gyfer cynhalwyr

Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf

Cafodd y Fforwm Gwerth Cymdeithasol a'r Grŵp Cynllunio Fforwm Gwerth Cymdeithasol cysylltiedig eu sefydlu yn rhan o'r trefniadau Arwain Rhanbarthol er mwyn helpu darparwyr gwerth cymdeithasol i feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r agenda a gweithio gyda'i gilydd i ychwanegu at allu'r gymuned.

Prif nodau'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol yw:

- Meithrin partneriaethau rhwng cymunedau, sefydliadau a gwasanaethau yn seiliedig ar egwyddorion datblygu cymunedol sy'n seiliedig ar asedau ac egwyddorion cydgynhyrchu
- Gwrando ar gymunedau a gweithio gyda nhw i gynyddu'r cymorth anffurfiol sydd ar gael i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau
- Darparu gwybodaeth, cyngor ac atgyfeiriadau yn lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau yn y gymuned
- Datblygu amrywiaeth o wasanaethau cyffredinol ac arbenigol yn y gymuned i ddiwallu anghenion y boblogaeth
- Ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn llunio model o rwydweithiau cymdeithasol sy'n dderbyniol i bawb
- Hyrwyddo darparwyr gwerth cymdeithasol yn rhan o'r broses gomisiynu
- Sicrhau cysondeb â datganiadau a chynlluniau comisiynu strategol eraill, megis rhai ar gyfer pobl hŷn, plant, pobl ifainc a theuluoedd a phobl ag anableddau dysgu
- Gweithredu fel grŵp atgyfeirio o ran ymgysylltu â'r gymuned a'r trydydd sector

Cafodd Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cwm Taf ei lansio yn ffurfiol ym mis Hydref 2017 o dan y pennawd "Adeiladu Gallu Cymunedol ar gyfer Lles".

Ymhlith y meysydd allweddol a gafodd eu hamlygu'n rhai i'w datblygu / ar gyfer cynhwysiant pellach yng Nghynllun Gweithredu'r Rhwydwaith roedd

- Eglurder a chytundeb ynghylch ymgysylltu â dinasyddion, grwpiau cymunedol a gyda'n gilydd, gyda rhwydweithio lleol sy'n gysylltiedig â chynllunio strategol sy'n mynd i'r afael â bylchau
- Rhoi cylch a strwythur cynllunio ar waith sy'n cefnogi proses gomisiynu gyd-gynhyrchiol sy'n cefnogi arloesi a newid
- Sicrhau ein bod yn mesur cynnydd – mae hwn yn daith ac mae angen i ni roi camau ar waith i werthuso cynnydd ar bob lefel

Daeth 78 o bobl o bob sector. Cafodd ffurflenni gwerthuso eu cyhoeddi ac mae'r canlyniadau canlynol yn deillio o'r ymatebion:

- Dywedodd 81% eu bod yn deall rhagor
- Dywedodd 78% eu bod yn gwybod rhagor
- Dywedodd 84% bod gwelliant mewn cysylltiadau a rhwydweithio

Ym mis Ionawr 2018, cynhaliodd y Rhwydwaith ddwy sesiwn hyfforddi ar gyd-gynhyrchu a daeth ystod o bartneriaid i'r sesiynau. Roedd y sesiynau'n trafod

- cyd-destun polisi a deddfwriaeth
- cyd-gynhyrchu: beth a pham?
- beth mae cyd-gynhyrchu yn ei olygu i gomisiynu?
- ar waith: astudiaethau achos ac arferion da
- sut i ddefnyddio offer a thechnegau
- cynllunio ar gyfer gweithredu

Ym mis Mawrth 2018, cafodd achlysur Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol ei gynnal o amgylch thema "Dinasyddion, Cyd-gynhyrchu a Chomisiynu". Cydweithiodd Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cwm Taf a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu De Cymru i gyflwyno'r achlysur. Cafodd adroddiad Achlysur ei lunio sy'n crynhoi'r prif bwyntiau trafod, gan gynnwys yr hyn y mae angen i'r Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol ei wneud nesaf a beth fyddai'n nodweddu gwaith 'gwydych'.

Ymhlith y meysydd allweddol a gafodd eu hamlygu ar gyfer eu datblygu ymhellach/eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r Rhwydwaith roedd

- yr angen i ddatblygu dulliau / pecynnau offer cyffredin a chyson ar gyfer mesur, monitro a gwerthuso effaith gwasanaethau sy'n cefnogi lles a datblygiad cymunedol, gan gynnwys prosiectau ar raddfa fach dan arweiniad y gymuned
- gwerth casglu straeon i gefnogi gwerthuso'r Ddeddf, er enghraifft trwy gymryd rhan yn y prosiect "Mesur y Mynydd"
- datblygu llwyfan / porth i rannu arfer orau, galw am gydweithio, cefnogaeth ac ati
- gwell cyfathrebu rhwng y rhai sy'n gwenud penderfyniadau a phob sector a grŵp, o fewn ac ar draws cymunedau

Mynychodd 53 o bobl o bob sector. Cafodd ffurflenni gwerthuso eu cyhoeddi ac mae'r canlyniadau canlynol yn deillio o'r ymatebion:

- Dywedodd 74% eu bod yn deall rhagor
- Dywedodd 74% eu bod yn gwybod rhagor
- Dywedodd 79% bod gwelliant mewn cysylltiadau a rhwydweithio

Panel Trigolion Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Cwm Taf

Diben Panel y Dinasyddion yw helpu i'r Bwrdd Partneriaeth ddeall a yw ei bolisiau'n gweithio ai peidio a gweld a ydyn nhw'n mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu bod modd i'r Panel wneud penderfyniadau mwy effeithlon sy'n cael mwy o effaith ar fywydau pobl. Mae Panel y Dinasyddion yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:


- Mae aelodau'r panel yn drigolion
- Mae'n cynnig cipolwg ar y ffordd mae'r gwasanaethau'n gweithio o safbwynt personol
- Bydd e'n rhannu syniadau am sut mae modd i'r gwasanaethau weithio'n well ac mae'n cynnig cymhelliant ar gyfer eu gwella
- Bydd e'n rhannu syniadau am sut mae modd iddyn nhw wella eu bywydau
- Bydd ei aelodau yn siarad dros eu hunain; dydyn nhw ddim yn cynrychioli grŵp o bobl
- Bydd e'n ystyried meysydd sy'n peri pryder i'r Bwrdd Partneriaeth, yn ogystal â'r swyddogion Polisi sy'n gweithio ar flaenoriaethau'r bartneriaeth ac yn darparu safbwynt unigryw o ran profiad ac arbenigedd personol
- Does gan y banel ddim rôl o ran lobio


6.6 Trefniadau Comisiynu Rhanbarthol

Yn ystod 2017/18, trwy weithio gyda'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus, Prifysgol Brookes Rhydychen, cafodd y trefniadau ar gyfer comisiynu ar draws y rhanbarth eu hadolygu gyda golwg ar ddatblygu mewn partneriaeth Uned Comisiynu Rhanbarthol fach. Byddai hyn yn ategu ac yn cefnogi'r adnodd sydd mewn sefydliadau partner eisoes fel bod modd i'r Rhanbarth ddatblygu a gweithredu cynlluniau comisiynu rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaeth integredig ar gyfer amrywiaeth o grwpiau cleientiaid a datblygu trefniadau cymunedol ar y cyd ar gyfer darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig gyflymach

Cytunon ni y bydd Uned Comisiynu Rhanbarthol yn cael ei sefydlu fel sy wedi'i hamlinellu yn y model sydd i'w weld isod. Bydd rhaglen waith yr Uned yn cael ei llunio yn erbyn y cyd-destun sydd i'w weld yn y diagram isod:

Model Comisiynu Rhanbarthol ar y cyd





Fel rhan o ddatblygiad yr Uned, mae gwaith ar y gweill hefyd i adolygu rôl ac aelodaeth yr Is-grŵp Comisiynu ar y Cyd a'r grwpiau cyflawni. Edrychwch ar adran 7 am ragor o wybodaeth.

6.7. Gweithio gyda Phartneriaethau eraill

Mae'r Bwrdd Partneriaeth yn adrodd i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar ei feysydd cyfrifoldeb penodol mewn iechyd, gofal a lles. Mae Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus at y diben hwnnw ac i hyrwyddo alinio effeithiol rhwng Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae cyd-Gadeiryddion y Grŵp Arwain Trawsnewid yn aelodau o'r Bwrdd, ac felly mae'r gynrychiolaeth yma'n derbyn cefnogaeth bellach ar Fwrdd Partneriaeth Strategol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'n ymddangos bod y trefniadau yma yn effeithiol o ran cydlynu blaenoriaethau ac ymdrechion yn y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn cydweithio'n agos â phartneriaethau strategol eraill Cwm Taf, gan gynnwys y rhai sy wedi'u rhestru isod, ac mae gan rai ohonyn nhw gyfrifoldebau sy wedi'u nodi yn y Cynllun Rhanbarthol i gyflawni camau allweddol:

Cynllun Law yn Llaw at Iechyd Meddwl

Bwrdd Diogelu

Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel

Pwyllgor Cefnogi Pobl Rhanbarthol

7. Edrych tuag at 2018/19

Yn 2018/19, bydd y Bartneriaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:

7.1 Cyflwyno Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf

Mae Blaenoriaethau'r Cynllun ar gyfer 2018/19 yn cynnwys:

- Ymgorffori gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref a datblygu Cam 2 Cadw'n Iach Gartref. Bydd Prifysgol De Cymru yn cynnal gwerthusiad annibynnol sy wedi'i gomisiynu, ac mae disgwyl iddi adrodd ym mis Awst 2018.

Bydd hyn yn helpu i lywio'r gwaith sydd wedi dechrau i ddatblygu achos Busnes ar gyfer Cam 2. Bydd Cam 2 yn canolbwyntio ar osgoi mynd â phobl i'r ysbyty a datblygu gwasanaethau ymateb cymunedol cyflym mae modd i feddygon teulu, carfanau gofal sylfaenol a chydweithwyr WAST gael mynediad atyn nhw.

- Cefnogi datblygu Parthau Cymunedol – mae hwn yn brosiect ar y cyd â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Dyma ddull sy'n seiliedig ar leoliad ac asedau, sy'n cefnogi ymyrraeth gynnar ac atal i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), gan roi cymorth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau trwy gynnwys y teulu cyfan ac adeiladu cydnerthedd cymunedol a lleihau unigrwydd ac ynysu. Mae'r dull yn cael ei dreialu mewn dwy gymuned, y Gurnos ym Merthyr Tudful a Chwm Rhondda Fach Uchaf yn RhCT
- Mynd i'r afael â chanfyddiadau adolygiad o wasanaethau Cynhalwyr a'r opsiynau ar gyfer model gwasanaeth integredig rhanbarthol
- Datblygu Datganiad o Fwriad Strategol i Bobl ag Anableddau Corfforol a / neu Nam Synhwyrdd
- Datblygu Cynllun Gweithredu Dementia lleol, gan gynnwys Valley LIFE
- Gwella gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau cyffredinol ehangach i bobl ag anableddau dysgu

Byddwn ni'n cynyddu capasiti a momentwm trwy recriwtio i'r Uned Comisiynu Rhanbarthol ac adolygu mecanweithiau cyflenwi cysylltiedig, fel sy wedi'i ddisgrifio yn adran 6.6.

7.2. "Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol"

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei gynllun mewn ymateb i'r Adolygiad Seneddol o ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cynllun yn galw am ymagwedd system gyfan ddi-dor at iechyd a gofal cymdeithasol, gan geisio cyflymu ac ymgorffori newid.

Mae'r Cynllun yn nodi "Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn meddu ar rôl oruchwylio a chydlynu gref. Bydd gweithio mewn partneriaeth ranbarthol wrth wraidd ein nod o ddatblygu modelau iechyd a gofal cymdeithasol integredig o werth uchel." Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf yn croesawu'r cyfle i ddylanwadu ar yr agenda arloesi a thrawsnewid yn lleol ac yn gweld hyn fel yr amser i symud o system ymyriadau adweithiol i un sy'n ceisio rhagweld pa ofal fydd ei angen sy'n rheoli'r angen yn gynyddol trwy weithio di-dor.

7.3. Newidiadau Ffin

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ym mis Ebrill 2019. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer ôl troed Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf, gan gynnwys yr angen i adolygu'r Asesiad Poblogaeth a'r Cynllun Ardal sydd ei angen dan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant.

Wrth gwrs, bydd darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar bobl, yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth a bydd y ddau Fwrdd Iechyd yn gweithio i sicrhau parhad yn ystod y broses drosglwyddo a thu hwnt. Mae modd i gyfnod o'r fath newid peri aflonyddwch i bawb sy'n gysylltiedig, gan gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth, cynhalwyr, staff a grwpiau eraill. Rydyn ni eisiau gwneud yr holl broses mor syml a thryloyw â phosibl a byddwn ni'n sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd a thryloyw trwy gydol y broses, gan gynnwys rheoli'r goblygiadau i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'i waith.

7.4. Cronfa Gofal Integredig 2018/19

Yn dilyn adolygiad o gynlluniau Cronfa Gofal Integredig y rhanbarth ym mis Rhagfyr 2017, cafodd pob cynllun ei gymeradwyo i'w gyflwyno ar gyfer 2018/19. Mae Cynllun Buddsoddi Refeniw y Rhanbarth ar gyfer 2018/19 wedi'i gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Bydd cynigion ar gyfer arian Cronfa Gofal Integredig newydd sy'n ymwneud â dementia yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf ac yn cynnwys cynigion ar gyfer Caffi Dementia yn y ganolfan Iechyd a Lles newydd yn Nhreorci, canolfan iechyd a lles ar safle Parc Iechyd Keir Hardie, a charfanau arbenigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan roi sylw ymyrraeth gynnar a dementia ymysg pobl iau.

Mae'r Rhanbarth yn datblygu cyfres o geisiadau cyfalaf, ac yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch rhaglen gyfalaf newydd y Gronfa Gofal Integredig a'r broses ymgeisio. Mae bwriad i gynnal cynnal sesiwn i bartneriaid ym mis Medi gyda chydweithwyr ieched, tai a gofal cymdeithasol i feithrin dealltwriaeth o sectorau, rhannu arferion da ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol.

7.5. Cartrefi gofal

Bydd gwaith yn parhau i ddatblygu trefniadau cronfa ar y cyd y rhanbarth, gan gynnwys opsiynau i ehangu hyblygrwydd o fewn y Gronfa, i gydnabod mai nod ddisgwyliedig Llywodraeth Cymru yw sefydlu cronfa rhannu risg ar y cyd ar gyfer pob categori gofal.

Yn dilyn gwaith i ddatblygu manyleb a chytundeb gwasanaeth cartrefi gofal rhanbarthol, byddwn ni'n gweithredu trefniadau contract a monitro newydd

Cafodd Datganiad Sefyllfa'r Farchnad y Rhanbarth ar gyfer Gwasanaethau Cartrefi Gofal ei gymeradwyo ym mis Tachwedd 2017. Byddwn ni'n bwrw ati i roi gofynion y datganiad a'r strategaeth gomisiynu gysylltiedig ar waith.

7.6 Cyd-gynhyrchu

Rydyn ni'n bwriadu cynnal achlysur nesaf Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Cwm Taf ym mis Gorffennaf 2018 – y thema fydd Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Ynysu Gyda'n Gilydd. Mae hwn yn flaenoriaeth yng Nghynllun Rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a hefyd Cynllun Lles Cwm Taf. Bydd yr achlysur yn canolbwyntio ar ddylunio model Cwm Taf ar gyfer cymorth cymunedol sy wedi'i ddarparu gan y trydydd sector.

Am ragor o wybodaeth am yr adroddiad Blynyddol yma neu i gael copi o'r dogfennau eraill mae'n cyfeirio atyn nhw, cysylltwch â

Nicola Davies:

Pennaeth Iechyd a Lles

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Tel: 01443 744824

Nicola.Davies12@wales.nhs.uk